



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 2800 (C.199) (Cy.116)

2005 No. 2800 (W.199) (C.116)

**OMBWDSMON
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS CYMRU**

**WELSH PUBLIC
SERVICES
OMBUDSMAN**

Gorchymyn Deddf Ombwdsmon
Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)
2005 (Cychwyn Rhif 1 a
Darpariaethau Trosiannol ac
Arbedion) 2005

The Public Services Ombudsman
(Wales) Act 2005 (Commencement
No. 1 and Transitional Provisions
and Savings) Order
2005

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ("y Ddeddf"), ac eithrio adran 20 a pharagraff 15(5) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

This Order brings into force the provisions of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 ("the Act"), except section 20 and paragraph 15(5) of Schedule 1 to the Act.

Mae erthygl 3 a Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf ar 12 Hydref 2005 at y diben o benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon"), yn cynnwys y darpariaethau sy'n ymwneud â phersonau sydd i'w hanghymhwyso rhag dal swydd yr Ombwdsmon.

Article 3 and Part 1 of Schedule 1 to this Order bring into force on 12 October 2005 various provisions of the Act for the purpose of appointing the Public Services Ombudsman for Wales ("the Ombudsman"), including the provisions relating to persons who are to be disqualified from holding the office of the Ombudsman.

Mae'r darpariaethau hynny hefyd yn dwyn i rym amrywiol bwerau (sydd wedi eu breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad")) ar 12 Hydref 2005 i wneud gorchymynion a rheoliadau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Ombwdsmon o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

Those provisions also bring into force on 12 October 2005 various powers (vested in the National Assembly for Wales ("the Assembly")) to make orders and regulations relating to the functions of the Ombudsman under Part 2 of the Act.

Mae erthygl 3 a Rhan 2 o Atodlen 1 yn dwyn i rym ar 12 Hydref 2005 ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n symud ymaith gyfrifoldebau Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a Chomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru i baratoi ac i gyflwyno i Gabinet y Cynulliad amcangyfrifon o incwm ac o wariant y naill swydd a'r llall am y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007.

Article 3 and Part 2 of Schedule 1 bring into force on 12 October 2005 the provisions of the Act that remove the duties on the Welsh Administration Ombudsman and the Health Service Commissioner for Wales to prepare and submit to the Assembly Cabinet estimates of the income and expenditure of each office for the financial year ending 31 March 2007.

Mae'r darpariaethau hynny hefyd yn dwyn i rym ar 12 Hydref 2005 y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n symud ymaith ddyletswydd y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru i baratoi ac i gyflwyno i'r Cynulliad amcangyfrif o'r treuliau y bydd yn eu tynnu am y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007. Er bod paragraff 7(1) o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru gyflwyno ei amcangyfrif i'r Ysgrifennydd Gwladol, mae erthygl 2(a) i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999 Rhif 672) ac Atodlen 1 iddo yn cael effaith fel bod rhaid i'r Comisiwn yn hytrach gyflwyno'r amcangyfrif i'r Cynulliad.

Mae Atodlen 4 yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau a chyflogeion llywodraeth leol. Yn hyn o beth mae Atodlen 4 yn gwneud y diwygiadau sy'n angenrheidiol i beri bod Rhan 3 o Ddeddf 2000 yn cydweddu'n llawn â'r Ddeddf. Yn ei hanfod, pan ddaw Atodlen 4 i rym yn llawn, bydd swyddogaethau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru ("y Comisiwn") a swyddogaethau'r Comisiynydd Lleol yng Nghymru ("y Comisiynydd") o dan Ran 3 o Ddeddf 2000 yn dod yn swyddogaethau'r Ombwdsmon.

A siarad yn fras, o ran awdurdodau perthnasol yn Lloegr (fel y'u diffinir yn Neddf 2000) ac awdurdodau heddluoedd yng Nghymru mae'r pwerau yn Rhan 3 o Ddeddf 2000 i wneud gorchmynion a rheoliadau sy'n ymwneud â chyrrff o'r fath wedi eu breinio yn yr Ysgrifennydd Gwladol. O ran awdurdodau perthnasol yng Nghymru (heblaw awdurdodau heddluoedd yng Nghymru) mae'r pwerau hynny wedi eu breinio yn y Cynulliad. Mae'r pwerau i wneud gorchmynion a rheoliadau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn a'r Comisiynydd o dan Ran 3 o Ddeddf 2000 wedi eu breinio yn y Cynulliad.

Mae erthyglau 4(1) a (2) o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 12 Hydref 2005 y darpariaethau hynny o Atodlen 4 sy'n diwygio'r pwerau yn rhan 3 o Ddeddf 2000 i wneud gorchmynion a rheoliadau (yn ôl y digwydd) mewn cysylltiad ag ymddygiad aelodau a chyflogeion awdurdodau perthnasol (o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf 2000) gan beri bod y darpariaethau hynny, lle bo angen, yn cydweddu'n llawn â'r Ddeddf.

Hyd nes daw adran 35 ac Atodlen 4 i rym yn llawn ar 1 Ebrill 2006 nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw swyddogaethau dan Ran 3 o Ddeddf 2000. Er hynny mae erthyglau 4(1) a (2) o'r Gorchymyn hwn yn galluogi gwneud gorchmynion a rheoliadau i baratoi ar gyfer yr adeg, ar 1 Ebrill 2006, pryd y bydd yr Ombwdsmon yn cymryd drosodd swyddogaethau'r Comisiwn a'r Comisiynydd o dan y Rhan honno o'r Ddeddf honno.

Those provisions also bring into force on 12 October 2005 the provisions of the Act that remove the duty on the Commission for Local Administration in Wales to prepare and submit to the Assembly an estimate of the expenses that it will incur for the financial year ending 31 March 2007. Although paragraph 7(1) of Schedule 4 to the Local Government Act 1974 requires that the Commission for Local Administration in Wales submit its estimate to the Secretary of State, article 2(a) of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (SI 1999 No. 672) has effect so that the Commission must submit the estimate to the Assembly instead.

Schedule 4 amends Part 3 of the Local Government Act 2000 ("the 2000 Act") which relates to the conduct of local government members and employees. In this respect Schedule 4 makes the necessary amendments to bring Part 3 of the 2000 Act fully into accord with the Act. Essentially, when Schedule 4 comes fully into force, functions of the Commission for Local Administration in Wales ("the Commission") and those of the Local Commissioner in Wales ("the Commissioner") under Part 3 of the 2000 Act become functions of the Ombudsman.

Broadly speaking, in relation to relevant authorities in England (as defined in the 2000 Act) and police authorities in Wales the powers in Part 3 of the 2000 Act to make orders and regulations relating to such bodies are vested in the Secretary of State. As regards relevant authorities in Wales (other than police authorities in Wales) those powers are vested in the Assembly. The powers to make orders and regulations relating to the functions of the Commission and the Commissioner under Part 3 of the 2000 Act are vested in the Assembly.

Articles 4(1) and (2) of this Order bring into force, on 12 October 2005, those provisions of Schedule 4 which amend the powers in Part 3 of the 2000 Act to make orders and regulations (as the case may be) in connection with the conduct of members and employees of relevant authorities (within the meaning of Part 3 of the 2000 Act) bringing those provisions, where necessary, fully into accord with the Act.

Until section 35 and Schedule 4 come fully into force on 1 April 2006 the Ombudsman has no functions under Part 3 of the 2000 Act. However, articles 4(1) and (2) of this Order enable orders and regulations to be made in preparation for the Ombudsman taking over, on 1 April 2006, the functions of the Commission and the Commissioner under that Part of that Act.

Er hynny, hyd nes daw adran 35 ac Atodlen 4 i rym yn llawn ar 1 Ebrill 2006, bydd y Comisiwn a'r Comisiynydd yn parhau i fod â swyddogaethau o dan y Rhan honno o'r Ddeddf honno. Mae erthygl 4(3) o'r Gorchymyn hwn, felly, yn darparu bod darpariaethau Rhan 3 o Ddeddf 2000 a fyddai fel arall yn cael eu heffeithio gan y diwygiadau a wnaed gan ddarpariaethau'r Ddeddf a ddygwyd i rym gan erthygl 4(1) a (2) o'r Gorchymyn hwn yn parhau i gael effaith (fel pe na baent wedi cael eu diwygio felly) at y diben o wneud gorchmynion a rheoliadau sy'n ymwneud â swyddogaethau sydd eisioes yn mynd rhagddynt y Comisiwn a'r Comisiynydd o dan Ran 3 o Ddeddf 2000.

Mae erthygl 5(1) yn dwyn gweddill darpariaethau'r Ddeddf (ac eithrio adran 20 a pharagraff 15(5) o Atodlen 1) i rym ar 1 Ebrill 2006.

Mae erthygl 5(2) ac Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau arbedol. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â chyfrifon ac adnoddau Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru ac Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru. Yr un person sydd ar hyn o bryd yn dal pob un o'r swyddi hyn.

Effaith y darpariaethau hyn, am y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2006, yw bod y gofynion sy'n ymwneud â'r swyddi hyn i baratoi cyfrifon ac i gael archwiliad o'r cyfrifon hynny etc. yn parhau yn gymwys. Yn gymaint â bod y darpariaethau hynny yn dal yn gymwys, caiff yr Ombwdsman ei ystyried yn swyddog cyfrifyddu o ran pob un o'r swyddi hynny, er enghraifft, at ddibenion llofnodi'r cyfrifon.

Mae erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth o ran unrhyw gwyn a wneir neu a gyfeirir yn briodol at yr Ombwdsmon ynglŷn â mater sy'n ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006 ac ynglŷn â digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad hwnnw. Dim ond os yw'r weithred yr achwynir o'i phlegid wedi digwydd cyn 1 Ebrill 2006 y bydd Adran 38 (cwynion heb benderfyniad arnynt) yn gymwys. Os yw cwyn yn ymwneud â gweithred sy'n digwydd ar y dyddiad hwnnw neu ar ei ôl bydd darpariaethau Rhan 2 yn gymwys i'r gwyn honno.

At ddibenion erthygl 6 ni waherddir yr Ombwdsmon rhag ymchwilio i fater yn unig oherwydd bod y mater yn ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006 (erthygl 6(3)).

Er hynny, at ddibenion erthygl 6 dim ond os bydd amodau penodol wedi cael eu bodloni (erthygl 6(2)) y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i fater o'r fath yn gymaint â'i fod yn ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwnnw. Dyma'r amodau hynny:

- (a) rhaid i'r gwyn fod wedi'i gwneud fel arall yn briodol neu wedi ei chyfeirio'n briodol at yr Ombwdsmon, a

However, until section 35 and Schedule 4 come fully into force on 1 April 2006, the Commission and the Commissioner will continue to have functions under that Part of that Act. Article 4(3) of this Order, therefore, provides that the provisions of Part 3 of the 2000 Act that would otherwise be affected by the amendments made by the provisions of the Act brought into force by article 4(1) and (2) of this Order continue to have effect (as if they had not been so amended) for the purpose of making orders and regulations relating to the ongoing functions of the Commission and the Commissioner under Part 3 of the 2000 Act.

Article 5(1) brings the remaining provisions of the Act (except section 20 and paragraph 15(5) of Schedule 1) into force on 1 April 2006.

Article 5(2) and Schedule 2 to this Order contain saving provisions. These provisions relate to the accounts and resources of the Welsh Administration Ombudsman, the Health Service Commissioner for Wales and the Social Housing Ombudsman for Wales. Each of those offices are currently held by the same person.

The effect of these provisions is that, for the financial year ending 31 March 2006, the requirements in relation to those offices to prepare accounts and to have those accounts audited etc. continue to apply. Insofar as those provisions continue to apply, the Ombudsman will be regarded as the accounting officer in relation to each of those offices for the purposes of, for example, signing the accounts.

Article 6 of this Order makes provision in relation to any complaint that is duly made or referred to the Ombudsman about a matter which relates to events that occurred before 1 April 2006 and events that occurred after that date. Section 38 (undetermined complaints) only applies where the action complained of takes place before 1 April 2006. Where a complaint relates to action that occurs on or after that date the provisions of Part 2 will apply to that complaint.

For the purposes of article 6 the Ombudsman is not prevented from investigating a matter only because the matter relates to events that occurred before 1 April 2006 (article 6(3)).

However, for the purposes of article 6 the Ombudsman can investigate such a matter insofar as it relates to events that occurred before that date only if certain conditions are met (article 6(2)). Those conditions are that:

- (a) the complaint must otherwise have been duly made or duly referred to the Ombudsman, and

(b) gallesid (heblaw am ddarpariaethau eraill y Ddeddf) bod wedi gwneud y gŵyn parthed y digwyddiadau a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006 i Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, Comisiynydd Lleol Cymru, Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru neu Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru ("ombwdsmyrn presennol Cymru") ond ni wnaed hynny.

Er enghraifft, os, ar ôl 1 Ebrill 2006, ychwanegir corff i Atodlen 3 (awdurdodau rhestredig) gan orchymyn y Cynulliad o dan adran 28(2) ond nad yw'n gorff sydd, cyn y dyddiad hwnnw, o fewn awdurdodaeth un o ombwdsmyrn presennol Cymru yna ni fydd erthygl 6 yn gymwys. Dim ond os yw'r mater yn rychwantu 1 Ebrill 2006 ac os yw'r corff dan sylw, ar ôl y dyddiad hwnnw, o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon a chyn y dyddiad hwnnw o fewn awdurdodaeth un o ombwdsmyrn presennol Cymru, y bydd erthygl 6 yn gymwys.

Mae erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth drosiannol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon baratoi a chyflwyno i Gabinet y Cynulliad amcangyfrif o incwm a threuliau'r swydd honno am y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007.

Rhaid i'r Ombwdsmon gyflwyno'r amcangyfrif hwnnw i Gabinet y Cynulliad dim hwyrach na mis cyn cychwyn y flwyddyn ariannol honno. Rhaid i Gabinet y Cynulliad ystyried yr amcangyfrif hwnnw ac yna ei osod gerbron y Cynulliad gyda'r fath addasiadau ag y tybia'n briodol. Er hynny, os yw Cabinet y Cynulliad yn bwriadu gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad gydag addasiadau, rhaid i Gabinet y Cynulliad ymghynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyntaf.

(b) the complaint in respect of the events that occurred before 1 April 2006 could (but for the other provisions of the Act) have been, but has not been, made to the Welsh Administration Ombudsman, the Local Commissioner for Wales, the Health Service Commissioner for Wales or the Social Housing Ombudsman for Wales ("the existing Welsh ombudsmen").

For example, if, after 1 April 2006, a body is added to Schedule 3 (listed authorities) by Assembly order under section 28(2) but it is not a body that, prior to that date, is within the jurisdiction of one of the existing Welsh ombudsmen then article 6 will not apply. Article 6 only applies where the matter spans 1 April 2006 and where the body concerned is, after that date, within the jurisdiction of the Ombudsman and before that date within the jurisdiction of one of the existing Welsh ombudsmen.

Article 7 of this Order makes transitional provision requiring the Ombudsman to prepare and submit to the Assembly Cabinet an estimate of the income and expenses of that office for the financial year ending 31 March 2007.

The Ombudsman must submit that estimate to the Assembly Cabinet no later than one month before the beginning of that financial year. The Assembly Cabinet must consider that estimate and then lay it before the Assembly with such modifications as it thinks appropriate. However, if the Assembly Cabinet proposes to lay that estimate before the Assembly with modifications, the Assembly Cabinet must first consult the Secretary of State.

2005 Rhif 2800 (C.199) (Cy.116)

2005 No. 2800 (W.199) (C.116)

**OMBWDSMON
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS CYMRU**

**WELSH PUBLIC
SERVICES
OMBUDSMAN**

Gorchymyn Deddf Ombwdsmon
Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)
2005 (Cychwyn Rhif 1 a
Darpariaethau Trosiannol ac
Arbedion) 2005

The Public Services Ombudsman
(Wales) Act 2005 (Commencement
No. 1 and Transitional Provisions
and Savings) Order
2005

*Wedi'i wneud**11 Hydref 2005**Made**11 October 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 40, 43(1)(b), 44(1) a 44(2) o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005(1), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 40, 43(1)(b), 44(1) and 44(2) of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005(1), hereby makes the following Order:

Enwi a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005.

Title and interpretation

1. The name of this Order is the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (Commencement No.1 and Transitional Provisions and Savings) Order 2005.

2.-(1) Yn y Gorchymyn hwn-

2.-(1) In this Order-

ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a sefydlwyd gan adran 23(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974,

"a Local Commissioner in Wales" ("*Comisiynydd Lleol yng Nghymru*") means a Local Commissioner (within the meaning of Part 3 of the Local Government Act 1974(2)) who is a member of the Commission,

ystyr "Comisiynydd Lleol yng Nghymru" ("*a Local Commissioner in Wales*") yw Comisiynydd Lleol (o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974(2)) sy'n aelod o'r Comisiwn,

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005,

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000(3),

"the Commission" ("*Y Comisiwn*") means the Commission for Local Administration in Wales established by section 23(1)(b) of the Local Government Act 1974,

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, ac

"the Ombudsman" ("*yr Ombwdsmon*") means the Public Services Ombudsman for Wales, and

ystyr "yr Ombwdsmon" ("*the Ombudsman*") yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Local Government Act 2000(3).

(1) 2005 p. 10.

(2) 1974 p. 7.

(3) 2000 p. 22.

(1) 2005 c. 10.

(2) 1974 c. 7.

(3) 2000 c. 22.

(2) Yn y Gorchymyn hwn mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni, oni nodir fel arall, yn gyfeiriadau at adrannau o'r Ddeddf ac Atodlenni iddi.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 12 Hydref 2005

3. Mae'r darpariaethau a ganlyn yn dod i rym ar 12 Hydref 2005 at y dibenion y cyfeirir atynt-

- (a) mae'r darpariaethau a bennir yng nghlofn gyntaf y Tabl yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn dod i rym at y dibenion a bennir yn ail golofn y Tabl hwnnw, a
- (b) mae'r darpariaethau a bennir yng nghlofn gyntaf y Tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn dod i rym at y dibenion a bennir yn ail golofn y Tabl hwnnw.

4.-(1) Mae adran 35 a'r paragraffau a ganlyn o Atodlen 4 yn dod i rym yn unol â pharagraffau (2) a (3) isod-

- (a) 1, 2, 4,
- (b) 11(a) ac (c) i (e),
- (c) 14(a), a
- (ch) 23.

(2) Heblaw fel y darperir ym mharagraff (3) isod, daw'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) uchod i rym ar 12 Hydref 2005 at ddibenion gwneud gorchymynion a rheoliadau (yn ôl y digwydd) yn ymwneud â swyddogaethau'r Ombwdsmon o dan Ran 3 o Ddeddf 2000.

(3) Hyd 1 Ebrill 2006 bydd y darpariaethau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) isod yn parhau i gael effaith, at y diben y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) isod, fel pe na byddai'r diwygiadau a wnaed gan y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) uchod yn cael effaith-

- (a) y darpariaethau y cyfeirir atynt uchod yw'r adrannau a ganlyn o Ddeddf 2000-
 - (i) 49,
 - (ii) 53,
 - (iii) 68(1), (3) a (4),
 - (iv) 70(2)(b), a
 - (v) 82.
- (b) y diben y cyfeirir ato uchod yw'r diben o wneud gorchymynion a rheoliadau (yn ôl y digwydd) yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn neu Gomisiynydd Lleol yng Nghymru o dan Ran 3 o Ddeddf 2000.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2006

5.-(1) Heblaw fel y darperir ym mharagraff (2) isod, ac eithrio fel y darperir ym mharagraff (3) isod, daw darpariaethau'r Ddeddf, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym, i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) In this Order references to sections and Schedules are, unless otherwise stated, references to sections of and Schedules to the Act.

Provisions coming into force on 12 October 2005

3. The following provisions come into force on 12 October 2005 for the purposes referred to-

- (a) the provisions specified in the first column of the Table in Part 1 of Schedule 1 to this Order come into force for the purposes specified in the second column of that Table, and
- (b) the provisions specified in the first column of the Table in Part 2 of Schedule 1 to this Order come into force for the purposes specified in the second column of that Table.

4.-(1) Section 35 and the following paragraphs of Schedule 4 come into force in accordance with paragraphs (2) and (3) below-

- (a) 1, 2, 4,
- (b) 11(a) and (c) to (e),
- (c) 14(a), and
- (d) 23.

(2) Save as provided for in paragraph (3) below, the provisions referred to in paragraph (1) above come into force on 12 October 2005 for the purpose of making orders and regulations (as the case may be) relating to the functions of the Ombudsman under Part 3 of the 2000 Act.

(3) Until 1 April 2006 the provisions referred to in sub-paragraph (a) below continue to have effect, for the purpose referred to in sub-paragraph (b) below, as if the amendments made by the provisions referred to in paragraph (1) above did not have effect-

- (a) the provisions referred to above are the following sections of the 2000 Act-
 - (i) 49,
 - (ii) 53,
 - (iii) 68(1), (3) and (4),
 - (iv) 70(2)(b), and
 - (v) 82.
- (b) the purpose referred to above is the purpose of making orders and regulations (as the case may be) relating to the functions of the Commission or a Local Commissioner in Wales under Part 3 of the 2000 Act.

Provisions coming into force on 1 April 2006

5.-(1) Save as provided for in paragraph (2) below, and except as provided for in paragraph (3) below, the provisions of the Act, insofar as they are not already in force, come into force on 1 April 2006.

(2) At ddibenion y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2006-

- (a) yn ddarostyngedig i is-baragraff (b) isod ac er gwaethaf dyfodiad adran 39 ac Atodlen 7 i rym, mae'r darpariaethau hynny o'r Deddfau y cyfeirir atynt yn y golofn gyntaf o'r Tabl yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn parhau i gael effaith fel pe na bai'r darpariaethau hynny wedi cael eu diddymu gan y Ddeddf, a
- (b) mae'r darpariaethau hynny yn parhau i gael effaith yn unol ag is-baragraff (a) uchod yn ddarostyngedig i'r addasiadau a bennir yn ail golofn y Tabl yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(3) Nid yw'r darpariaethau a ganlyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2006-

- (a) adran 20, a
- (b) paragraff 15(5) o Atodlen 1.

Cwynion sy'n rhychwantu'r dyddiad cychwyn

6.-(1) Os yw'r erthygl hon yn gymwys rhaid i'r Ombwdsmon ystyried y gwyn yn unol â darpariaethau Rhan 2 o'r Ddeddf.

(2) Mae'r erthygl hon yn gymwys-

- (a) os oes cwyn wedi cael ei gwneud neu wedi cael ei chyfeirio yn briodol at yr Ombwdsman ynglŷn â mater sy'n ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006 ac â digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwnnw, a
- (b) os o ran y digwyddiadau a fu cyn 1 Ebrill 2006 galleid (heblaw am ddarpariaethau eraill y Ddeddf) bod wedi gwneud cwyn wrth un o Ombwdsmy'n presennol Cymru o dan y deddfiad presennol perthnasol ond nis gwnaed.

(3) At ddibenion yr erthygl hon nid yw'r Ombwdsmon wedi ei rwystro rhag ymchwilio i fater (neu ran o fater) yn unol â Rhan 2 o'r Ddeddf yn unig am fod y mater yn ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006.

(4) At ddibenion paragraff (2) uchod mae gan-

- (a) "Ombwdsmon presennol Cymru" a
- (b) "y deddfiad presennol perthnasol",

yr ystyron sydd i "existing Welsh Ombudsman" a "the relevant existing enactment" yn adran 38(6).

Darpariaeth Drosiannol - amcangyfrifon

7. -(1) Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r erthygl hon yn gymwys i'r Ombwdsmon o ran y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007.

(2) Rhaid i'r Ombwdsmon baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau'r swydd honno am y flwyddyn ariannol honno a'i gyflwyno i Gabinet y Cynulliad dim hwyrach nag un mis cyn cychwyn y flwyddyn ariannol honno.

(2) For the purposes of the financial year ending 31 March 2006-

- (a) subject to sub-paragraph (b) below and despite the coming into force of section 39 and Schedule 7, the provisions of the Acts referred to in the first column of the Table in Schedule 2 to this Order continue to have effect as if those provisions had not been repealed by the Act, and
- (b) those provisions continue to have effect in accordance with sub-paragraph (a) above subject to the modifications specified in the second column of the Table in Schedule 2 to this Order.

(3) The following provisions do not come into force on 1 April 2006-

- (a) section 20, and
- (b) paragraph 15(5) of Schedule 1.

Complaints spanning commencement date

6.-(1) Where this article applies the Ombudsman must consider the complaint in accordance with the provisions of Part 2 of the Act.

(2) This article applies where-

- (a) a complaint has been duly made or referred to the Ombudsman in respect of a matter which relates to events that occurred before 1 April 2006 and events that occurred after that date, and
- (b) as regards the events that occurred before 1 April 2006 a complaint could (but for the other provisions of the Act) have been but has not been made to an existing Welsh Ombudsman under the relevant existing enactment.

(3) For the purposes of this article the Ombudsman is not prevented from investigating a matter (or part of a matter) in accordance with Part 2 of the Act only because it relates to events that occurred before 1 April 2006.

(4) For the purposes of paragraph (2) above-

- (a) "existing Welsh Ombudsman", and
- (b) "the relevant existing enactment",

have the same meanings as in section 38(6).

Transitional Provision - estimates

7.-(1) The following provisions of this article apply to the Ombudsman in relation to the financial year ending 31 March 2007.

(2) The Ombudsman must prepare an estimate of the income and expenses of that office for that financial year and submit it to the Assembly Cabinet not later than one month before the beginning of that financial year.

(3) Rhaid i Gabinet y Cynulliad graffu ar yr amcangyfrif ac yna ei osod gerbron y Cynulliad gydag unrhyw addasiadau y tybia eu bod yn briodol.

(4) Os yw Cabinet y Cynulliad yn bwriadu gosod yr amcangyfrif gerbron y Cynulliad gydag addasiadau, rhaid iddo ymghynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyntaf.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

11 Hydref 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(3) The Assembly Cabinet must examine the estimate and then lay it before the Assembly with any modifications it thinks appropriate.

(4) If the Assembly Cabinet proposes to lay the estimate before the Assembly with modifications, it must first consult the Secretary of State.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1).

11 October 2005

The Presiding Officer of the National Assembly

D. Elis-Thomas

**DARPARIAETHAU SY'N DOD I RYM AR
12 HYDREF 2005**

Rhan 1

<i>Darpariaethau</i>	<i>Diben</i>
Adran 1 a pharagraffau 1, 2, 3, 5(1) i (3), 6 ac 8 o Atodlen 1	At y diben o benodi'r Ombwdsmon.
Adran 10 ac Atodlen 2	Pob diben.
Is-adrannau (7) i (9) o adran 25	Pob diben.
Adran 28 ac Atodlen 23	Pob diben.
Adran 29	Pob diben.
Adran 30	Pob diben.
Adran 39 a pharagraffau 61 i 63 o Atodlen 6	At y diben o benodi'r Ombwdsmon.

Rhan 2

<i>Darpariaethau</i>	<i>Diben</i>
Adran 39 a pharagraff 18(11) a (13) o Atodlen 6	At y diben o symud ymaith y ddyletswydd ar y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru i baratoi ac gyflwyno amcangyfrif o'r treuliau y bydd yn eu tynnu yn y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007.
Adran 39 a'r cofnod yn Atodlen 7 ar gyfer Deddf Comisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd 1993(1) ond yn unig er gweithredu diddymiad paragraff 9 o Atodlen 1A i'r Ddeddf honno	At y diben o symud ymaith y ddyletswydd ar Gomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru i baratoi ac i gyflwyno amcangyfrif o incwm a threuliau ei swydd y bydd yn eu tynnu yn y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007.

**PROVISIONS COMING INTO FORCE ON
12 OCTOBER 2005**

Part 1

<i>Provisions</i>	<i>Purpose</i>
Section 1 and paragraphs 1, 2, 3, 5(1) to (3), 6 and 8 of Schedule 1	For the purpose of appointing the Ombudsman.
Section 10 and Schedule 2	All purposes.
Subsections (7) to (9) of section 25	All purposes.
Section 28 and Schedule 3	All purposes.
Section 29	All purposes.
Section 30	All purposes.
Section 39 and paragraphs 61 to 63 of Schedule 6	For the purpose of appointing the Ombudsman.

Part 2

<i>Provisions</i>	<i>Purpose</i>
Section 39 and paragraph 18(11) and (13) of Schedule 6	For the purpose of removing the duty on the Commission for Local Administration in Wales to prepare and submit an estimate of the expenses it will incur in the financial year ending 31 March 2007.
Section 39 and the entry in Schedule 7 for the "Health Service Commissioners Act 1993(1)" but only to effect the repeal of paragraph 9 of Schedule 1A to that Act	For the purpose of removing the duty on the Health Service Commissioner for Wales to prepare and submit an estimate of the income and expenses of his or her office for the financial year ending 31 March 2007.

(1) 1993 p.46.

(1) 1993 c.46.

Adran 39 a'r cofnod yn Atodlen 7 ar gyfer Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ond yn unig er gweithredu diddymiad paragraff 8 o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno	At y diben o symud ymaith y ddyletswydd ar Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru i baratoi ac i gyflwyno amcangyfrif o incwm a threuliau ei swydd y bydd yn eu tynnu yn y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007.
---	---

Section 39 and the entry in Schedule 7 for the "Government of Wales Act 1998" but only to effect the repeal of paragraph 8 of Schedule 9 to that Act	For the purpose of removing the duty on the Welsh Administration Ombudsman to prepare and submit an estimate of the income and expenses of his office for the financial year ending 31 March 2007.
--	--

Erthygl 5

ATODLEN 2

ARBEDION

Article 5

SCHEDULE 2

SAVINGS

<i>Darpariaethau</i>	<i>Addasiadau</i>
Adran 1(3) a pharagraffau 10 i 14 o Atodlen 1A i Ddeddf Comisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd 1993	At ddibenion paragraff 12 o'r Atodlen i'r Ddeddf honno, yr Ombwdsmon fydd yn cael ei ystyried yn swyddog cyfrifyddu.
Adran 111(2) a pharagraffau 9 i 13 o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998	At ddibenion paragraff 11 o'r Atodlen honno i'r Ddeddf honno, yr Ombwdsmon fydd yn cael ei ystyried yn swyddog cyfrifyddu.
Adran 51A(7) a pharagraffau 13 i 17 o Atodlen 2A i Ddeddf Tai 1996(1)	At ddibenion paragraff 15 o'r Atodlen honno i'r Ddeddf honno, yr Ombwdsmon fydd yn cael ei ystyried yn swyddog cyfrifyddu.

<i>Provisions</i>	<i>Modifications</i>
Section 1(3) of and paragraphs 10 to 14 of Schedule 1A to the Health Service Commissioners Act 1993	For the purposes of paragraph 12 of that Schedule to that Act, the Ombudsman shall be regarded as the accounting officer.
Section 111(2) of and paragraphs 9 to 13 of Schedule 9 to the Government of Wales Act 1998	For the purposes of paragraph 11 of that Schedule to that Act, the Ombudsman shall be regarded as the accounting officer.
Section 51A(7) of and paragraphs 13 to 17 of Schedule 2A to the Housing Act 1996(1)	For the purposes of paragraph 15 of that Schedule to that Act, the Ombudsman shall be regarded as the accounting officer.

(1) 1996 p. 52.

(1) 1996 c. 52.

2005 Rhif 2800 (C.199) (Cy.116)

**OMBWDSMON
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS CYMRU**

Gorchymyn Deddf Ombwdsmon
Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)
2005 (Cychwyn Rhif 1 a
Darpariaethau Trosiannol ac
Arbedion) 2005

2005 No. 2800 (W.199) (C.116)

**WELSH PUBLIC
SERVICES
OMBUDSMAN**

The Public Services Ombudsman
(Wales) Act 2005 (Commencement
No. 1 and Transitional Provisions
and Savings) Order
2005

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W142/10/05

ON